Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road,
Abertawe SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

I rieni/ofalwyr

Annwyl Riant/Ofalwr,

**Newidiadau pwysig i daliadau ar-lein ar gyfer prydau ysgol**

Mae ein darparwr taliadau ar-lein ar gyfer prydau a theithiau ysgol yn newid o fis Medi. Ni fyddwn yn defnyddio sQuid mwyach a'r darparwr newydd fydd CRB Cunningham's.

Fe'ch cynghorwn i leihau'r balansau cyn diwedd y tymor, gan y bydd cyfrifon prydau ysgol yn dechrau o falans newydd o £0.00 ym mis Medi.

**Y camau nesaf:**

1. **Defnyddio'r balans:** Gwnewch yn siŵr y defnyddir unrhyw falans sydd ar ôl ar sQuid cyn diwedd y tymor. Os ydych yn dal i fod mewn credyd ar eich cyfrif sQuid ar ddiwedd y tymor, yna bydd angen i chi wneud cais am ad-daliad gan sQuid yn uniongyrchol. Ceir dolen i wedudalen sQuid yma:

   Cysylltwch â: sQuid (squidcard.com)

2. **Cofrestru cyfrif rhiant:** Darperir gwybodaeth gynefino i rieni yn ystod diwrnodau cyntaf y tymor ysgol i ganiatáu i chi sefydlu'r cyfrif a'i lwytho ag arian. Hoffem eich sicrhau y bydd pob disgybl yn gallu archebu pryd yn ystod y diwrnodau cyntaf nes bod y cyfrif wedi'i actifadu a gellir talu am y prydau hyn unwaith eich bod wedi actifadu'r cyfrif a rhoi arian ynddo.

Yn gywir,
Mr K Davies

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
To receive this information in an alternative format, or in English, please contact the above.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL